Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai

18.00 dydd Mawrth 5 Tachwedd 2013

Ystafelloedd Pwyllgora C a D, Tŷ Hywel

---

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Sandy Mewies AC | Cadeirydd |
| Jocelyn Davies AC | Llefarydd Plaid Cymru ar Dai |
| Carl Sargeant AC | Y Gweinidog Tai ac Adfywio |
| Keith Edwards | CIH Cymru (Ysgrifennydd) |
| Lee Cecil | Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid |
| Douglas Haig | Cymdeithas Landlordiaid Preswyl |
| Julie Nicholas | CIH Cymru |
| John Puzey | Shelter Cymru |
| Aaron Hill | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Ceri Cryer | Age Cymru |
| Auriol Miller | Cymorth Cymru |
| Jim Bird-Waddington | Caer Las |

## Ymddiheuriadau

Peter Black AC, Mark Isherwood AC, John Dysdale TPAS Cymru, Steve Clarke Tenantiaid Cymru a Neil Williams Gofal a Thrwsio Cymru.

## Croeso

Esboniodd yr Ysgrifennydd fod y Cyfarfod Llawn yn debygol o barhau tan 19.00, er bod posibilrwydd y byddai'r Cadeirydd a'r Gweinidog yn ymuno â ni cyn hynny. Yn absenoldeb Aelodau'r Cynulliad, trafododd y grŵp y blaenoriaethau cyfredol a gweithgareddau'r dyfodol.

## Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog

Ymunodd y Cadeirydd â'r Gweinidog a Jocelyn Davies AC am 18.25. Byddai'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad ddychwelyd i'r Cyfarfod Llawn cyn hir ac felly cytunwyd i gwtogi'r cyfarfod a chanolbwyntio ar ddiweddariad gan y Gweinidog a chwestiynau.

Dywedodd y Gweinidog na allai rannu manylion y Bil Tai arfaethedig gydag aelodau'r Pwyllgor oherwydd byddai hwnnw'n cael ei gyhoeddi ar 18 Tachwedd. Fodd bynnag, dywedodd fod y prif feysydd a oedd yn debygol o gael eu cynnwys yn wybodaeth gyffredin, ac roeddynt yn cynnwys:

- Gwella'r Sector Rhentu Preifat
- Gweithredu i atal digartrefedd
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru
- Diddymu system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai
- Tai Cydweithredol

Mynegodd Jocelyn Davies AC bryderon ynghylch awgrymiadau y byddai statws cyn-garcharorion yn cael ei newid o ran y blaenoriaethau digartrefedd.  Cafwyd trafodaeth gyffredinol hefyd am yr amserlen a'r broses.

**Cyfarfodydd y dyfodol**

Ymgynghorir â'r aelodau ynghylch themâu yn ystod yr wythnosau nesaf, a byddai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cyfarfod i adolygu a chynllunio'r sesiwn gyntaf yn 2014.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.45.

Penderfynwyd gohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, y bwriadwyd ei gynnal ar ôl y cyfarfod, tan ddyddiad i'w drefnu.